# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ann Davies a Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (KN); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies fudd personol yn Eitem 6 ar yr Agenda: Cyllideb 2016/17 oherwydd ei fod yn Gadeirydd yr Awdurdod Tân.

### 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

### 5 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2016-19

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2016-19 cyn y câi ei gyflwyno ger bron Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Ffynhonnell ariannu gan Lywodraeth Cymru yw Cefnogi Pobl (CP) sy'n darparu cefnogaeth gyda thai i bobl diamddiffyn er mwyn eu galluogi i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Adroddodd y Cynghorydd Feeley ar y gwaith da a wneir yn Sir Ddinbych yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau drwy elusennau a'r trydydd sector ynghyd â gwasanaethau cymorth mewnol allweddol a gafodd eu hariannu gan y grant Cefnogi Pobl. Roedd y Cynllun yn nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu dros y tair blynedd nesaf a chyfeiriwyd at y goblygiadau ariannu sy'n codi o doriadau, gyda gostyngiadau dangosol gan y darparwr ar gyfer 2016/17 wedi'u cynnwys mewn atodiad cyfrinachol i'r prif adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet y blaenoriaethau a nodwyd yn yr adroddiad ynghyd â'r cynigion i reoli'r gostyngiad mewn arian. Trafododd yr Aelodau y ffaith eu bod wedi gofyn am gefnogaeth barhaus i'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn y Cyngor llawn ym mis Medi 2015 ac er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gostwng y gyllideb eleni, disgwylir toriadau pellach yn y dyfodol. Cwestiynodd yr Aelodau gynaliadwyedd prosiectau y dyfodol yng ngoleuni'r toriadau pellach a gofyn am sicrwydd ynghylch cynlluniau i liniaru gostyngiadau ariannu. Eglurodd swyddogion y fethodoleg wrth gynllunio ar gyfer toriadau ariannol a gyflawnwyd yn bennaf hyd yma drwy effeithlonrwydd a thrafodaethau gyda darparwyr gwasanaeth nad oedd eto wedi effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y gymhariaeth o wariant 2014/15 a 2015/16 fel y manylir yn y Cynllun a chadarnhaodd y swyddogion fod cronfa wrth gefn wedi cael ei sefydlu petai unrhyw doriadau yn digwydd yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd ymarfer mapio anghenion er mwyn dosbarthu arian yn briodol gan ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru. Roedd toriadau cyllid y dyfodol yn golygu bod rhaid dadgomisiynu rhai gwasanaethau a fyddai'n cael eu gwneud yn unol â Strategaeth Dadgomisiynu CP Sir Ddinbych. Roedd llawer o waith yn cael ei wneud er mwyn cael tystiolaeth am ganlyniadau ac arddangos cynaliadwyedd y gwasanaethau hynny a gomisiynir. Gan ymateb i gwestiynau ynghylch ymateb y Cyngor i statws ffoaduriaid, adroddodd y swyddogion am raglen adsefydlu y Llywodraeth ar gyfer ffoaduriaid Syria. Eglurwyd bod proses statudol wahanol yn berthnasol i geiswyr lloches.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl ar gyfer 2016 – 2019 cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Chwefror 2016.*

## 6 CYLLIDEB 2016/17 (CYNIGION TERFYNOL - CAM 6)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2016/17 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2016/17, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Rhoddodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb, a'r sefyllfa gyllideb ddiweddaraf ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'r argymhelliad i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2016/17. Mae'r setliad drafft wedi bod yn llawer gwell na'r disgwyl gyda gostyngiad ariannol cyffredinol o 1.2% i Sir Ddinbych a oedd yn golygu gostyngiad o £3.9m yn llai na'r disgwyl. O ganlyniad i'r cynigion diweddaraf, nid oedd angen rhagor o arbedion gan wasanaethau yn 2016/17 (roedd arbedion o £5.2m eisoes wedi eu clustnodi) a byddai'n golygu lefel

is o gynnydd i Dreth y Cyngor o 2.75% i 1.5% ar gyfartaledd. Roedd y gyllideb arfaethedig hefyd wedi ystyried cynnydd mewn cyllid i ysgolion i fodloni'r lefel genedlaethol o amddiffyniad ar 1.85% ac i neilltuo £480,000 i liniaru'r risgiau at gyflawni'r gyllideb hon.

Trafododd y Cabinet gynigion y gyllideb yn fanwl – dyma oedd y prif feysydd trafodaeth –

- Ystyriodd yr aelodau ddigonolrwydd y gyllideb wrth gefn arfaethedig o £480k a thrafod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gyllideb o gofio bod rhaid i gynghorau bennu cyllidebau a Threth y Cyngor yn seiliedig ar setliad dros dro. Nid yw nifer o grantiau refeniw wedi cael eu cadarnhau eto ac efallai y bydd angen mwy o amser i gyflawni rhai o'r arbedion a gytunwyd ar gyfer 2016/17. Gallai'r setliad terfynol newid, yn enwedig yng ngoleuni lobïo gan gynghorau gwledig a oedd wedi bod yn destun mwy o ostyngiadau. Trafodwyd rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y broses honno, ynghyd â'r posibilrwydd o gynghorau gyda setliadau mwy ffafriol yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer y rheiny sy'n waeth eu byd. Adroddodd y Prif Weithredwr bod dull gweithredu o'r fath yn bosib, ond yn annhebygol a disgwylid y byddai'r diffyg ariannol ar gyfer cynghorau gwledig yn fwy tebygol o gael cymhorthdal drwy ffrydiau cyllid grant eraill yn hytrach nag adolygiad o'r setliad drafft. Yn seiliedig ar dybiaethau cyfredol roedd y gyllideb wrth gefn arfaethedig o £480k i liniaru'r risg yn briodol. Byddai unrhyw ddiffyg mwy yn y gyllideb yn arwain at graffu pellach o gyllidebau unigol a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn corfforaethol. Teimlai'r Cynghorydd Barbara Smith y dylai'r cyngor ei gwneud yn glir na fyddai'n ailfeddwl am unrhyw benderfyniadau cyllidebol blaenorol yng ngoleuni'r setliad oedd yn well na'r disgwyl.

- Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y byddai'n ddoeth i ystyried cynnydd o 2% ar gyfartaledd gyda Threth y Cyngor er mwyn amddiffyn yn erbyn toriadau yn y dyfodol a lleihau risgiau ariannol. Nododd y bu consensws ar gyfer cynnydd o 1.5% ar gyfartaledd yn y gweithdy cyllideb diwethaf ond oherwydd y presenoldeb isel oedd yno, roedd yn teimlo efallai nad oedd y farn honno yn wirioneddol gynrychioliadol. Cafwyd peth trafodaeth o amgylch y manteision a'r anfanteision o ymagwedd o'r fath a chydbwyso'r angen am fod yn ddoeth am yr effaith ar drigolion. Roedd y rhan fwyaf o aelodau o'r farn, o ystyried y setliad gwell na'r disgwyl a fforddiadwyedd cyllideb y Cyngor gyda chynnydd o 1.5%, ac o gofio fod lefel Treth y Cyngor Sir Ddinbych yn dal yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, bod cynnydd o 1.5% yn ddoeth ac yn briodol. Roedd yna hefyd amheuon y byddai cronfa wrth gefn yn cael ei datblygu am ddim pwrpas penodol. Cydnabuwyd y byddai'r mater yn debygol o fod yn destun trafodaeth bellach mewn Cyngor llawn ac awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol darparu dadansoddiad pellach o ffigyrau ar gyfer cynnydd ar gyfartaledd o 2% i'w ystyried yn y cyfarfod hwnnw er mwyn rhoi'r swm gwirioneddol ar gyfer pob band mewn cyd-destun. Nodwyd nad oedd gan y cyngor unrhyw reolaeth dros elfennau eraill sy'n rhan o Dreth y Cyngor - ardoll y Gwasanaeth Tân na'r Heddlu a praeseptau Cyngor Cymuned/Tref/Dinas.

- cyfeiriwyd at y cynnydd o 1.85% mewn cyllid i ysgolion i gwrdd â'r lefel genedlaethol o amddiffyniad ac ystyriodd yr aelodau a fyddai'n ddefnyddiol

ceisio dadansoddiad o'r symiau a roddir i ysgolion unigol ynghyd â thystiolaeth o ganlyniadau yn sgil yr arian ychwanegol. Cyfeiriwyd at rôl y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn y broses honno a chan y byddai symiau i ysgolion unigol yn amrywio, ac o ystyried y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn debygol o ymdrin â phwysau cyllidebol presennol yr ysgol, cytunwyd mai ychydig iawn o werth fyddai cael dadansoddiad o'r fath ond y byddai'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn y sefyllfa orau i edrych i mewn i'r mater. Nodwyd hefyd bod yr effaith ar ysgolion yn aneglur o ran cyllid Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar gyfer y cyfnod sylfaen ac addysg ôl-16. Roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn argymell bod angen proses fwy agored a thryloyw o ran dyraniadau ariannu ysgolion. Teimlai y gellid gwneud mwy i dynnu sylw at y cynnydd mewn cyllid ar gyfer ysgolion a'r ffaith fod gwario fesul disgybl yn Sir Ddinbych yn uwch nag awdurdodau lleol eraill ynghyd â'r buddsoddiad sylweddol mewn ysgolion drwy Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif

- O ran y posibilrwydd o gyfarwyddyd pellach gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu gofal cymdeithasol yn ariannol, nodwyd bod disgwyliad nad oedd cynghorau yn torri cyllidebau gofal cymdeithasol ond ni roddwyd eglurhad am sut y dylent gwrdd â'r disgwyliadau o ran gwasanaethau gofal penodol. Ymhelaethodd y Cynghorydd Bobby Feeley ar y rhesymeg ar gyfer ail-gynllunio gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i anghenion a demograffeg sy’n newid, ac nid fel ymateb i bwysau cyllidebol yn unig, gan nodi gwasanaethau gofal mewnol fel enghraifft

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch effaith y gyllideb ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor ac atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor llawn, y llynedd, wedi cymeradwyo defnyddio £500k o falansau cyffredinol i gefnogi'r gyllideb refeniw am y tair blynedd ariannol nesaf. Gwnaed y penderfyniad yn dilyn asesiad o falansau ac ystyriwyd bod gostyngiad sy’n cael ei reoli dros dair blynedd yn ddull gweithredu derbyniol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o gydnabod bod y setliad drafft yn well na’r disgwyl. Cyfeiriodd at y broses agored a thryloyw o bennu'r gyllideb a thalodd deyrnged i waith y swyddogion a’r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hynny o beth. Gellid cael sicrwydd o gynllunio ariannol cadarn Sir Ddinbych a'r ffaith nad oedd y Gweithgor Tasg a Gorffen Torri’r Brethyn wedi canfod unrhyw faterion dyledus wrth adolygu effaith penderfyniadau cyllidebol. Roedd yr Arweinydd yn falch o gefnogi cynigion y gyllideb er mwyn cyflawni cyllideb sydd hefyd yn caniatáu ar gyfer buddsoddi ym mlaenoriaethau'r cyngor. Amlygodd y Prif Swyddog Cyllid yr anawsterau o ran cynllunio ariannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch lefel y setliadau ariannol a darparodd beth cyd-destun o ran rhagdybiaethau cyllidebol wrth fynd ymlaen.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ac nad oes angen unrhyw arbedion pellach oni bai am y £5.2m sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan wasanaethau ar gyfer 2016/17, a*

*(b)* *cefnogi'r cynigion a ganlyn ac yn unol â hynny yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2016/17:*

1. *cynyddu cyllid i ysgolion i fodloni’r lefel ddiogelu genedlaethol o +1.85%.*
2. *neilltuo cyllideb wrth gefn un flwyddyn o £480k ar gyfer 2016/17 er mwyn lliniaru'r risgiau i gyflawni’r gyllideb a nodir yn yr adroddiad*
3. *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 1.5%.*

Ar y pwynt hwn (12 p.m.) cafwyd egwyl yn y cyfarfod am luniaeth.

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.460 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- Roedd 91% o’r arbedion a gytunwyd wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed o £7.3m) ac amcangyfrifir y byddai mwyafrif yr arbedion sy'n weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan bellaf
- amlygwyd bod y prif amrywiadau oddi wrth dargedau cyllideb neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen y Cynllun Corfforaethol).

Rhoddodd y Cynghorydd David Smith ddiweddariad ar faterion priffyrdd gan gynghori y byddai ffioedd parcio newydd yn weithredol o 1 Mawrth 2016 er mwyn lleddfu'r gorwariant yn y maes hwn. Adroddodd am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddiweddaru mesuryddion parcio er mwyn iddynt allu derbyn taliadau gyda cherdyn a rhoi rhybudd cyfreithiol am y ffioedd newydd. Dywedodd y Cynghorydd Smith hefyd am her gyfreithiol barhaus o amgylch y dynodiad llwybr diogel yn ne'r sir yn dilyn gweithredu'r polisi cludiant ysgol newydd. Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a’r Gwasanaethau Democrataidd wybodaeth bellach am y broses gyfreithiol a chanlyniadau posibl o amgylch yr her gyfreithiol mewn ymateb i gwestiynau ar hynny. O ran y gwaith a wnaed ar ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd mae hyn yn parhau i fod yn risg.

Amlygodd y Cynghorydd Huw Jones yr angen i roi sylw i sut y byddai Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu datblygu yn y dyfodol i sicrhau eu parhad. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfarfod lle gellid cyfeirio at y mater hwnnw er mwyn ei ddatblygu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet i’w hystyried a nododd yr aelodau ei chynnwys.

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i ddarparu diweddariad ar lafar ar yr ysgol ffydd ar y cyd posibl gan ddweud y byddai opsiynau posib eraill gwahanol i'r rhai a oedd wedi eu cyflwyno yn cael eu harchwilio gyda'r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.